# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 2

HENEBION O DDIDDORDEB HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 2

COFRESTR O HENEBION O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL

*Adolygu penderfyniadau i ddiwygio'r gofrestr i ychwanegu henebion etc.*

PROSPECTIVE

### 10 Darpariaeth atodol ynghylch adolygiadau

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y ffurf a'r ffordd y mae rhaid i gais o dan adran 9 gael ei wneud;

(b) yr wybodaeth y mae rhaid ei darparu i Weinidogion Cymru, neu y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol, mewn cysylltiad â chais;

(c) y cyfnod y mae rhaid i gais gael ei wneud ynddo.

(2) Rhaid i adolygiad o dan adran 9 gael ei gynnal mewn un neu ragor o'r ffyrdd a ganlyn (fel y'i penderfynir gan y person sy'n cynnal yr adolygiad)—

(a) drwy ymchwiliad lleol;

(b) drwy wrandawiad;

(c) ar sail sylwadau ysgrifenedig.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad ag adolygiadau o dan adran 9.

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 10 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) neu (3) awdurdodi Gweinidogion Cymru neu bersonau a benodir o dan adran 9(3)—

(a) i benderfynu materion o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau, a

(b) i roi cyfarwyddydau mewn perthynas â'r materion hynny.

(5) Mae Atodlenni 2 a 6 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch adolygiadau o dan adran 9.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 10 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 11(3) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(2)
- s. 58(4)(c) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(3)
- s. 88(4) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(4)
- s. 118(2)(f) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(5)
- s. 161(6) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(6)